

# DOLEN Y TAB – 33

## 4–5 RHAGFYR 2020

### \*OEDFA SUL 6 RHAGFYR\*

Munud i feddwl gyda Ceri Anwen a'r gerddoriaeth gan Eleri Huws.

### OEDFAON GWEDDILL RHAGFYR

**13** Oedfa Nadolig y plant.

**20** Bydd yr oedfa yn rhaglen nodwedd o eitemau gan oedolion ar gyfer y Nadolig. Cerddi, sylwadau, storïau, caneuon, atgofion ac unrhyw beth arall y byddai pobl yn barod i'w gyfrannu. Plis danfonwch yr eitemau ar Whatsapp i Rhiannon Humphreys ar 07861 753945 neu i Geraint Rees ar 07816 341527.

**27** Oedfa ar-lein i gymryd munud i feddwl rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd gan edrych yn ôl ac ymlaen.

*Cofiwch hefyd am . . .*

#### **10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb**

Yn arwain yr oedfa ar ail Sul yr Adfent bydd Casi Jones, Gweinidog Capel Emaus, Bangor (Ar gael ar wefan yr Undeb [annibynwyr.org](http://annibynwyr.org) a [YouTube](#))

#### **12.00 Oedfa Radio Cymru**

Yng ngofal Delwyn Sion, Gwaelod-y-Garth – 'Dan seren yn y Dwyrain'

#### **12.30 Radio Cymru**

*Bwrw Golwg* gyda John Roberts

**E-fwletin Cristnogaeth21** newydd i'w weld bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Cydymdeimlad

Yn ddiweddar, derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth Sandra Davies, Aberteifi, chwaer Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon, Efail Isaf. Estynnwn ein cydymdeimlad fel eglwys i Shelagh yn ei cholled.

## Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees. Mae angen pob talent arnom i gadw'r llif o amrywiaeth ar gyfer ein Suliau. Diolch yn fawr.

## Gair gan y Trysorydd

*A ninnau ar drothwy blwyddyn newydd, mae gan Arwyn dair neges i'w trosglwyddo:*

### - Cyfraniadau

Yn y cwrdd blynyddol ddydd Sul soniais fod costau cynnal y capel yn codi'n flynyddol, ac apeliais ar yr aelodau i roi ystyriaeth i hyn wrth benderfynu ar lefel eu cyfraniadau at yr achos.

### - Casgliadau 2020

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar ddydd olaf y flwyddyn. Os am gyfrannu yn ôl eich arfer, dylid anfon siec wedi ei chyflwyno i *Capel y Tabernacl Cyf.* at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os byddwch yn anfon ataf fi, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Ar y llaw arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

**Enw'r cyfrif:** Capel y Tabernacl Cyf.

**Cod didoli:** 30 – 96 – 72

**Rhif y cyfrif:** 03607499

### - Amlenni 2021

Yn groes i'r drefn arferol, ni fyddwn yn argraffu amlenni pwrpasol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn hytrach, gofynnir i chi ddefnyddio'r amlenni gwyn a brown sy'n sbâr o eleni. Os na fydd digon ohonynt gennych, yna medrwrch gyflwyno eich casgliadau mewn amlenni cyffredin gan gofio nodi eich rhif aelodaeth ac ysgrifennu ar yr amlen ai i gronfa'r eglwys neu'r gronfa elusennau y bwriedir y cyfraniad.

## EICH CYFLE OLAF I GYFRANNU BWYD A DANTEITHION NADOLIG

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn un o elusennau'r Tabernacl eleni, ac fe fyddan nhw'n derbyn cyfraniad ddiwedd y flwyddyn. O drafod gyda'r elusen, mae John yn deall y bydden nhw hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadoligaidd (bwyd sych, bisgedi, siocledi ac ati) gan gofio y bydd llawer o blant yn eu llochesi dros y Nadolig. Mae nifer fawr iawn ohonoch eisoes wedi dod â chyfraniadau i'r capel, ynghyd â nwyddau hylendid, ond mae un cyfle olaf i gyfrannu a hynny **fore lau 10 Rhagfyr rhwng 10–12 o'r gloch**. Dyw Cymorth i Ferched Cymru ddim yn cael derbyn unrhyw nwyddau eraill oherwydd Covid-19, gan y byddai heintio yn eu gorfodi i gau'r llochesi.

**DIOLCH YN FAWR AM  
EICH CEFNOGAETH HAEL**

# CWRDD BLYNYDDOL

(Cipolwg byr o'r hyn a drafodwyd. Bydd adroddiad llawnach i'w weld yn rhifyn Ionawr o Tafod y Tab).

Ar fore Sul olaf Tachwedd, ymunodd dros ddeugain o'r aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol cwmni'r eglwys trwy gyfrwng Zoom. Yn wyneb amgylchiadau digynsail y flwyddyn hon, cafwyd sêl bendith gan y Comisiwn Elusennau i gynnal y cwrdd yn rhithiol yn hytrach na dilyn y canllawiau arferol. Er mai digwyddiad ffurfiol yw'r cwrdd blynyddol yn ei hanfod, llwyddodd Eluned Davies-Scott, Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, nid yn unig i lywio'r trafodaethau busnes yn feistrolgar iawn ond hefyd i greu naws gynnes a hwyliog er gwaetha'r pellter daearyddol rhwng pawb. Does ryfedd yn y byd bod llawer yn anfodlon ffarwelio pan ddaeth y cyfarfod i ben!

## - Blwyddyn Heriol

Wrth groesawu pawb ar ddechrau'r cwrdd, mynegodd Eluned mor braf oedd cael y cyfle i weld cynifer o wynebau cyfarwydd, a hynny am y tro cyntaf ers mis Mawrth. Yn ei hadroddiad, cyfeiriodd at yr holl newidiadau a welwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Soniodd iddo fod yn gyfnod heriol a arweiniodd at brofi emosiynau amrywiol iawn – siom, dryswch ac ansicrwydd wrth geisio dygymod â'r newidiadau cyson i'n bywyd o ddydd i ddydd. Ond ar y llaw arall roedd yna brofiadau llawer iawn mwy cadarnhaol hefyd – a gwerthfawrogwyd yn fawr ymdrechion rhagorol aelodau'r Tabernacl i gynnal fflam yr achos o wythnos i wythnos drwy gyfrwng yr oedfaon rhithiol ysbrydoledig, ynghyd â'r gefnogaeth hael i'r holl ymgyrchoedd elusennol a drefnwyd. Diolchodd hefyd i aelodau'r Bwrdd a phawb arall fu'n gofalu am agweddau mwy ymarferol y gwaith o gynnal y Tabernacl.

## - Cyfarwyddwyr Newydd

Roedd tymor pedwar aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn dod i ben ar ddiwedd y cwrdd, sef Eluned Davies-Scott, Siân Llewelyn Barnes, Arwyn Jones a Rhiannon Llewelyn. Derbyniwyd pedwar enwebiad i gymryd eu lle, sef Hefin Gruffydd, Bethan Guilfoyle, Helen Middleton ac Iwan Rowlands. Cadarnhawyd yr enwau'n ffurfiol, ac wrth eu llongyfarch diolchodd Eluned iddynt am gytuno i weithredu ar y Bwrdd.

## - Elusennau

Er bod drysau'r Tabernacl wedi bod ar gau am dros naw mis o'r flwyddyn, hwn – heb unrhyw amheuaeth – fu'r cyfnod prysuraf erioed yn hanes y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol wrth geisio lleddfu rhyw gymaint ar galedi teuluoedd a chymunedau'n lleol ac ar draws y byd. Clywsom gan John Llew am yr heriau a wynebodd y Gweithgor yn sgil y llifogydd yn ardal RhCT ar ddechrau'r flwyddyn, a'r holl anawsterau wrth geisio cynnig cymorth i'r anghenus pan welwyd effaith y pandemig yn yr ardal o fis Mawrth ymlaen. Diolch i arweiniad clir John Llew ac Ann Dwynwen, diwydrwyd y Gweithgor, a haelioni anhygoel aelodau a chyfeillion yr eglwys a phentrefwyr Efail Isaf, fe lwyddwyd i gyflawni llawer er gwaetha'r anawsterau ymarferol.

Cyn cloi'r cwrdd, cadarnhawyd mai'r elusennau canlynol fydd yn rhannu casgliadau'r amlenni brown eleni: Cwtch; Ysgol Tŷ Coch; Gofalwyr Ifanc RhCT a Cymorth i Ferched Cymru.

## Stori'r Geni

Ymhlith yr eitemau oedd yn addurno Capel y Tabernacl yn ystod Gŵyl y Geni y llynedd, a mwy na thebyg am flynyddoedd lawer cyn hynny, roedd y gwrthrych hyfryd yma. Os cofiaf yn iawn roedd wedi ei osod ar bwys yr organ.



Gan ei fod yn waith celf mor drawiadol, roedd hi'n fwriad i gynnwys y llun yma yn rhifyn Ionawr eleni o Tafod y Tab ond yn anffodus ni lwyddwyd i wireddu'r cynllun hwnnw a hynny'n briodol iawn am nad oedd lle yn y papur. Mae'n siŵr bod nifer ohonoch yn gyfarwydd â'i hanes a sut y daeth i fod yn un o addurniadau Nadolig y capel. Byddai'n dda clywed oddi wrth rywun fyddai'n barod i rannu'r wybodaeth, fel y gellir ei chynnwys yn rhifyn yr wythnos nesaf o Dolen y Tab.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

*Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.*